
# Uchafbwyntiau Canolfan Ffilm Cymru 2122

Yn ystod ansicrwydd byd-eang, fe wnaethoch chi groesawu cynulleidfoedd yn ôl i rannu hud cymunedol y sinema drwy ddangosiadau a digwyddiadau ymgysylltu. Fe wnaethoch chi ddathlu diwylliant Cymru drwy ffilmiau Cymreig, rhoi llwyfan i straeon oedd yn llai adnabyddus drwy raglenni wedi'u curadu a chodi ymwybyddiaeth drwy gyrsiau a thrafodaethau. Ymunwch gyda ni i edrych yn ôl ar rai or pethau rydym wedi cu cyflawni yn ystod 2021/22.




## Aelodau

**308**

o arddangoswyr Cymreig

**12**

o aelodau newydd yn cynnws Hijinx, Venue Cymru + FOCUS Wales

**188**

o aelodau

**100%**

Roedd 100% o aelodau'r Ganolfan yn 'fodlon iawn' gyda chefnogaeth y Ganolfan (diolch i chi!)

# Cronfa Arddangos Ffilmiau



**£95,000** wedi'i dyfarnu

**28** o brosiectau

**21** FT / defnydd cymysg / Sinemau Cymunedol

**5** Gwyliau

**2** Rhwydweithiau

## Golwg ar Gŵyl Arswyd Rhyngwladol Abertoir

Cynhaliwyd Abertoir, Gŵyl Arswyd Rhyngwladol Cymru yng Nghanolfan Gelfyddydau Aberystwyth ac ar-lein. Digwyddiad chwech diwrnod yn cyrraedd cynulleidfaoedd ar draws y DU, yn dangos ffilmiau rhyngwladol, digwyddiaduau arbennig a mwy. Roedd uchafbwyntiau yn cynnwys 48 o ffilmiau ar draws y byd, dangosiad cyntaf y ffilm arswyd Gymraeg: Gwledd, sgwrs am fywyd cyfarwyddwr Hammer Horror, Terence Fisher a chyfweliad gyrfa manwl gyda'r gwestai gwadd Linda Hayden. Roedd hygyrchedd hefyd yn flaenoriaeth ac roedd penawdau b/Byddar ar gael trwy'r amser.

© The Toll



© Abertoir International Horror Festival

# Ffilmiau

**65%** o ddangosiadau arbennigol

**22%** o ddangosiadau hygyrchol

43,152 o dderbyniadau corfforol (17,369 llynedd)

7, 670 o dderbyniadau ar-lein

515 o ffilmiau

## Demograffeg y gynulleidfa

**17%** rhwng 16 - 30 oed

**23%** b/Byddar ac/neu anabl

**23%** LGBTQIA+

**50%** menywod

## Golwg ar Ystafell Rhagddangos Canolfan Ffilm Cymru

Mae 252 o aelodau FAN BFI ledled y DU wedi ymuno i wylio rhagddangosiadau ffilmiau ar-lein drwy ein gwefan (cynnydd o 59% ers y llynedd), gyda 80 o ffilmiau wedi eu uwchlwytho eleni, mae gennym gyfanswm o 175 ar gael hyd yn hyn. Y rhagddangosiadau a wyliwyd fwyaf oedd Paris, 13th District, Flee, The Welshman a Gwledd.

> “Diolch yn fawr am ymestyn hyn i aelodaeth ehangach FAN ac am ei sefydlu imi. Fe fydd yn hynod o ddefnyddiol wrth raglennu – prin iawn y byddaf yn gweld ffilmiau cyn eu rhaglennu gan na allaf gyfiawnhau yr amser a’r gost o deithio i Lundain ar gyfer rhagddangosiadau.”
>
> Aelod FAN

# Gwnaethpwyd yng Nghymru

**157 wedi'u cefnogi**

**102 sinemau**

**66 gwneuthurwyr ffilm**

**26 asedau yn cynnwys podlediadau, dalenni lliwio a blogiau fideo**

**39 cwmnïau dosbarthu**

**4 pecynnau ffilmiau wedi'u curadu**

**Dros 800 o ffilmiau ar ein catalog**



## Golwg ar The Toll

Fe wnaethom weithio gyda Signature Entertainment i sicrhau cynllun rhyddhau theatrig ar gyfer The Toll, y ffilm gyntaf gan yr awdur sgrin Matt Redd a'r Cyfarwyddwr Ryan Hooper. Dangoswyd y ffilm mewn 9 safle ynghyd â ffilm fer Gymreig Showdown. Fe wnaethom hefyd greu cyfweliad Gwnaethpwyd yng Nghymru ar ein podlediad Whole Story gyda'n Swyddog Gwnaethpwyd yng Nghymru, Radha yn cadeirio a sesiwn Holi ac Ateb arbennig yn Theatr Gwaun.



The Toll © Signature Entertainment

# Treftadaeth

## Golwg ar To o Lechi

Mewn partneriaeth gyda Archif Sgrin a Sain Cymru a Cinema Golau, fe wnaethom guradu cyfres o ffilmiau a gweithgareddau yn dathlu statws treftadaeth y byd UNESCO i dirwedd llechi Gogledd Orllewin Cymru ac archwilio cysylltiadau llai adnabyddus gyda'r Fasnach Caethwasiaeth. Mae saith ardddangoswr wedi cadarnhau digwyddiadau gyda rhagor i ddod yyn ddiweddarach eleni. Gwyliwch y rhagflas, a darllenwch gannalw'r rhaglen i ddygsu rhagor.




# Golwg ar Rhwydwaith Gwyliau Ffilm Ieuenctid / Ffilm Ifanc

Seyfdlwyd y Rhwydwaith gyda'r nod o gynyddu'r rhaglenni ffilmiau Prydeinig annibynnol a rhyngwladol sydd ar gael ac a wneir ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc. Yn ystod y cyfnod yma fe wnaeth eu grŵp curadwyr ifanc: Ffilm Ifanc gydweithredu gyda gwuyliau fel Cardiff Animation Festival a WOW Film Festival ar eu rhaglenni ffilm ochr yn ochr gyda thaith o ffilmiau i 6 lleoliad. Fe wnaethon nhw hefyd ddarparu cylchlythyr/zine y Rhwydwaith a chynnal cyfres o ddigwyddiadau i arddangoswyr.

# Cynulleidfaoedd Ifanc

Yn ystod ein hymgyrch i hyrwyddo rhyddhau Save the Cinema yng Nghaerfyrddin, fe wnaethom ymuno gydag Into Film Cymru. Fe wnaeth curadwyr ifanc gyfweld y Gyfarwyddwraig Sara Sugarman ac adolygu ymweliadau i'w sinemau lleol yn cynnwys Maxime Coed Duon a'r Lyric Cerfyrddin a ysbrydolodd y ffilm ei hun. Fe wnaethom hefyd gefnogi'r Lyric i ddangos y ffilm pan gafodd ei rhyddhau, ac fe werthwyd pob tocyn yn ystod ei rediad o 2.5 wythnos ac ysbrydoli'r lleoliad i ailgreu cynulleidfaoedd clwb ffilmiau yn y lleoliad.



# Amrywiaeth a Chynhwysiant

## Golwg ar Citizen Pontio

Nod #DinesyddPontio ydy ailosod sinema yng nghanol bywyd cymdeithasol, gwleidyddol a chymunedol ym Mangor gan adeiladu ar y digwyddiadau newid bywyd yn 2021. Roedd y prosiect yn cynnig dangosiadau yn seiliedig ar themâu gwleidyddol penodol sydd yn dathlu amrywiaeth, gyda'r bwriad o uno cynulleidfaoedd o bob cefndir ac oedran yn dilyn Covid-19 a rhoi cyfle iddyn nhw lunio ac 'ysgwyd' rhaglenni ffilmiau Pontio.

## Golwg ar Gwobr Iris

Nod Gwobr Iris ydy cynyddu cynulleidfaoedd ar gyfer straeon LGBT+ . Mae'r Gorau o Iris 2021 yn cynnwys detholiad o ffilmiau byr LGBT+ a wnaethpwyd yn y 18 mis diwethaf sydd am ddim i sinemau i'w harchebu ar draws y DU. Dysgwch ragor yma.

# Golwg ar Sinema Cynhwysol

Fel y Ganolfan arweiniol i Sinema Cymhwysol BFI FAN rydym hefyd wedi cyflawni nifer o brosiectau mynediad cenedlaethol yn cynnwys...

**T.L.C.** (sef Tender Loving Care i sinema Traws- arwain/Traws- Caru) Prosiect gyda'r nod o helpu rhaglenwyr a lleoliadau i gynyddu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau sinema traws-arwain a chynyddu diogelwch a chroeso i gynulleidfaoedd traws a staff mewn lleoliadau.

**Sidecard** Cronfa Ddata Deunyddiau Mynediad Ffilm i ddosbarthwyr, arddangoswyr, gwneuthurwyr ffilm a chynulleidfoaedd (yn lansio yn ystod 2022).

# Cefnogaeth i aelodau

Manteisiodd aelodau ar hyfforddiant neu gyngor un i un **597** o weithiau

Fe wnaethom gefnogi **65** ohonoch i fynychu digwyddiadau

- 8 x bwrseiraethau
- 1 x cwrs ar sinema B/byddar mewn partneriaeth gyda Cyngor Cymru i Bobl Fyddar ar gyfer 8 lleoliad
- 1 x canllaw i arddangoswyr i drafod thema caethwasiaeth drwy ddangosiadau
- 3 x astudiaethau ahos wedi eu cyhoeddi
- 14 x adnoddau gwe wedi eu uwchlwytho

# Golwg ar Cyngor Cymru i Bobl Fyddar (WCDP)

Fe wnaethom weithio gyda WCDP i gynnig hyfforddiant i 9 lleoliad aeth ymlaen i lansio dangosiadau i gynulleidgaoedd B/byddar neu i ddiweddaru dangosiadau cyfredol. Mae pob lleoliad yn gweithio gyda WCDP yn ystod 2022 i sefydlu grwpiau gwirfoddol lleol B/byddar a fydd yn helpu i siapio rhaglenni yn y dyfodol. Mae The Magic Lantern yn Nhywyn hefyd wedi derbyn hyfforddiant BSL drwy ein cynllun bwrseriaeth. Fe wnaethom ofyn iddyn nhw wneud fideo byr am yr hyn maen nhw wedi ei ddysgu a gallwch ei wylio yma.



WCDP © Liz Hutchinson

# Rhagor o wybodaeth

Mae ein holl brosiectau ar gael yma.

# Gwybodaeth cyswllt

**Hana Lewis, Rheolwraig Strategol,** ar 02920 353 740 / hana@filmhubwales.org
**Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu,** ar 02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org
**Silvia Sheehan, Swyddog Cyfathrebu,** ar 02920 311 057 / silvia@filmhubwales.org (rhan amser Mawrth -Iau),
**Radha Patel, Swyddog Gwnaethpwyd yng Nghymru,** radha@filmhubwales.org
**Megan Mitchell, Rheolwraig Prosiect Cynhwysiant**, megan@filmhubwales.org (rhan amser dwy ddiwrnod yr wythnos)